OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 1079

## Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003

**Trwyddedau**

**14.** Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn —

(a) cadw'r drwydded gydag ef ar bob adeg yn ystod y symudiad trwyddedig;

(b) os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd neu swyddog arall i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol neu gan un o arolygwyr yr awdurdod lleol, dangos y drwydded a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohoni gael ei gymryd, ac

(c) os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi ei enw a'i gyfeiriad.